wPecyn Dogfen Cyhoeddus

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu | Dyddiad: | 29 Tachwedd 2012 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 5 RHAGFYR 2012** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes sydd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 12 Medi 2012 (copi'n amgaeëdig).

**5 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU** (Tudalennau 13 - 18)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi'n amgaeëdig) yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo blaenraglen waith y Pwyllgor Trwyddedu a'r blaenoriaethau ar gyfer yr Adran Drwyddedu ar gyfer 2013/14.

**6 DIWEDDARIAD AR ADOLYGU FFIOEDD A THALIADAU TRWYDDEDU** (Tudalennau 19 - 24)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi'n amgaeëdig) yn diweddaru'r aelodau ar y cynnydd a wnaed ar adolygu'r ffioedd a'r taliadau trwyddedu ar gyfer 2013/14.

**7 DEDDF DIWYGIO'R HEDDLU A CHYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL 2011 – ARDOLL HWYR Y NOS A GORCHYMYN CYFYNGU BORE CYNNAR** (Tudalennau 25 - 28)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi'n amgaeëdig) yn amlinellu'r pwerau newydd sydd ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu o 31 Hydref 2012 dan ddiwygiadau i Ddeddf Trwyddedu 2003 i wneud Gorchmynion Cyfyngu Bore Cynnar a phennu Ardollau Hwyr y Nos.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1872, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf yn cael ei datgelu.

**8 ADOLYGU DWY DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT** (Tudalennau 29 - 36)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi'n amgaeëdig) yn gofyn i'r aelodau adolygu dwy drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hur preifat oherwydd methiant i gydymffurfio â gofyniad y Cyngor i ymgymryd â phrawf gwybodaeth gyrrwr yn llwyddiannus.

**9 ADOLYGU TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT – GYRRWR RHIF 043844** (Tudalennau 37 - 42)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi'n amgaeëdig) yn gofyn am benderfyniad gan yr Aelodau ar addasrwydd Gyrrwr Rhif 043844 i barhau i ddal Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Cherbyd Hur Preifat.

**10 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 044879** (Tudalennau 43 - 46)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi'n amgaeëdig) yn gofyn i'r aelodau benderfynu ar gais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 044879 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hur preifat.

**11 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 044881** (Tudalennau 47 - 50)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi'n amgaeëdig) yn gofyn i'r aelodau benderfynu ar gais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 044881 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hur preifat.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Brian Blakeley
Joan Butterfield
William Cowie
Richard Davies
Stuart Davies
Hugh Irving
Barry Mellor
Win Mullen-James
Peter Owen
Arwel Roberts
Cefyn Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Mercher, 12 Medi 2012 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr William Cowie, Richard Davies, Stuart Davies (Cadeirydd), Win Mullen-James, Peter Owen, Arwel Roberts a/ac Cefyn Williams

### HEFYD YN BRESENNOL

Prif Gyfreithiwr (AL), Swyddog Trwyddedu (NJ & JT), Swyddog Gweinyddol Trwyddedu (ES) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Hugh Irving a Barry Mellor

### 2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau'n rhagfarnu.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

NI chodwyd unrhyw faterion brys. Fodd bynnag, cyfeiriodd y Cadeirydd at sylwadau a wnaed yn y sesiwn hyfforddi ddiwethaf ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu yn ymwneud â materion cyfansoddiadol. Roedd wedi codi'r mater yn uniongyrchol gyda Phennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio a oedd wedi dweud y byddai'r materion hynny yn cael eu trin fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r cyfansoddiad. Felly, gallai'r aelodau fod yn sicr bod y materion yn cael eu trin.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2012.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2012 fel cofnod cywir.*

Ar y pwynt hwn, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu newid trefn y rhaglen er mwyn delio â'r unigolion hynny a oedd yn mynychu'r cyfarfod i gefnogi eu ceisiadau / adolygiadau trwydded ac i wrando ar eu hachosion hwy cyn unrhyw fater arall.

### GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *dan adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf yn cael ei datgelu.*

## 5 ADOLYGU TAIR TRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT

[Cafodd yr eitem hon ei symud ymlaen ar y rhaglen gyda chaniatâd y Cadeirydd]

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau ystyried addasrwydd tri Gyrrwr, rhifau 040298, 040448 a 040740 (adroddiadau unigol cyfatebol yn Atodiad 1 – 3 yn eu tro i'r prif adroddiad) i barhau fel gyrwyr trwyddedig ar ôl iddynt fethu â chydymffurfio â gofyniad y Cyngor i ymgymryd â phrawf gwybodaeth gyrwyr y Cyngor o fewn yr amserlen a bennwyd.

Ystyriodd yr aelodau'r amgylchiadau unigol yn ymwneud â phob Gyrrwr ar wahân, gan drin pob achos ar ei haeddiant fel a ganlyn –

### (1) Gyrrwr rhif 040740 (Atodiad 3) – Dyddiad Adnewyddu 31 Rhagfyr 2011

Anfonwyd 5 nodyn atgoffa at y Gyrrwr ers dyddiad adnewyddu ei drwydded ond ni wnaeth unrhyw ymdrech i gysylltu â'r swyddogion. Ar 6 Mehefin, hysbyswyd y Gyrrwr y byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu er ystyriaeth.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol i gefnogi ei achos ac yn ystod ei gyflwyniad siaradodd yn erbyn y prawf a oedd yn ei farn ef yn annigonol ac yn methu â chyflawni ei bwrpas o asesu'n ddigonol addasrwydd unigolion i fod yn yrwyr trwyddedig. Dywedodd ymhellach, i gefnogi ei gais am drwydded, iddo gyflwyno amrywiol dystysgrifau a thystlythrau a oedd, yn ei farn ef, yn profi ei addasrwydd ar gyfer cyflogaeth o'r fath, gan fynd y tu hwnt i'r prawf gwybodaeth gyrwyr. Aeth y Gyrrwr ymlaen i leisio nifer o gwynion ynglŷn â'r hyn a welai fel diffyg gweithredu gan yr Adran Drwyddedu wrth ddelio ag amrywiol bryderon a godwyd ganddo mewn perthynas â thrwyddedu tacsis. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gyrrwr gyfyngu ei gyflwyniad i'r rhesymau pam nad oedd wedi ymgymryd â'r prawf gwybodaeth yn llwyddiannus yn unol â'r gofynion. Ailadroddodd y Gyrrwr ei farn bod y prawf yn annigonol ac nad oedd yn cyflawni ei bwrpas.

Cymerodd yr aelodau'r cyfle i holi'r Gyrrwr ynglŷn â'r achos a chadarnhawyd iddo fethu ag ymateb i unrhyw nodyn atgoffa i sefyll y prawf gwybodaeth a anfonwyd gan yr Adran Drwyddedu. Sefydlwyd, trwy beidio â sefyll y prawf ac wrth ymddangos gerbron y Pwyllgor Trwyddedu, ei fod yn protestio yn erbyn yr hyn a gredai ef oedd yn diffyg gweithredu gan yr Adran Drwyddedu o ran ymateb i'w bryderon a'i gwynion mewn perthynas â thrwyddedu tacsis. Ailadroddodd y pwynt hwnnw eto wrth wneud ei ddatganiad terfynol i'r pwyllgor. Ychwanegodd ei fod yn teimlo nad oedd wedi ei drin yn deg gan yr Adran Drwyddedu yn ei drafodaethau gyda hwy, a'i fod wedi ei aflonyddu gan Swyddogion Trwyddedu. Cadarnhaodd y Swyddog Trwyddedu (JT) ei bod yn ymwybodol bod y Gyrrwr wedi codi pryderon ac ymholiadau gyda'r Adran Drwyddedu, a bod y swyddogion wedi gwneud eu gorau i ddelio â hwy.

Ar y pwynt hwn, ymneilltuodd y pwyllgor i ystyried y cais ac fe –

***BENDERFYNWYD*** *gohirio ystyried addasrwydd Gyrrwr rhif 040740 i roddi cyfle pellach i'r Gyrrwr sefyll y prawf gwybodaeth. Byddai methiant ar ran y Gyrrwr i sefyll y prawf gwybodaeth yn llwyddiannus erbyn cyfarfod nesaf y pwyllgor (5 Rhagfyr 2012) yn arwain at ddwyn y mater yn ôl gerbron y pwyllgor i'w benderfynu.*

Y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu oedd –

Tra'n cydnabod bod gan y  Gyrrwr bwynt i'w wneud mewn perthynas â materion trwyddedu, nid gwrthod sefyll y prawf gwybodaeth, a oedd yn berthnasol i bob gyrrwr, oedd y ffordd i brotestio. Roedd angen i bob gyrrwr trwyddedig sefyll y prawf ac ni ellid cael amgylchiadau eithriadol a fyddain rhwystro'r Gyrrwr rhag sefyll y prawf. Aelodau'r busnes oedd wedi galw am y prawf ac roedd yn rhan o'r gofynion i ddod yn yrrwr trwyddedig. Byddai methu â chwblhau'r prawf yn llwyddiannus erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu ar 5 Rhagfyr 2012 yn arwain at y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth o ddifrif i ddirymu trwydded y gyrrwr oherwydd bod yr Ymgeisydd wedi methu â dangos arddangos ei fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

Cyflwynodd y Cadeirydd benderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw i'r Gyrrwr.

**(2) Gyrrwr rhif 040298 (Atodiad 1) – Dyddiad Adnewyddu 31 Awst 2011**

Anfonwyd chwe nodyn atgoffa at y Gyrrwr ers amser adnewyddu ei drwydded ac ar 6 Mehefin 2012 cafodd ei hysbysu y byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu. Ar ôl cais aflwyddiannus gan y Gyrrwr i basio'r prawf gwybodaeth, roedd y Swyddog Trwyddedu (JT) yn falch o adrodd bod y Gyrrwr ers hynny wedi ail-sefyll y prawf yn llwyddiannus.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod cwblhad llwyddiannus y prawf gwybodaeth i yrwyr gan yrrwr rhif 040298 a pheidio â chymryd unrhyw gamau pellach.*

Y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu oedd –

Roedd y Gyrrwr nawr wedi cydymffurfio â gofyniad y Cyngor i ymgymryd â phrawf gwybodaeth gyrwyr yn llwyddiannus ac felly ystyriwyd nad oedd angen cymryd camau pellach.

**(3) Gyrrwr rhif 040298 (Atodiad 2) – Dyddiad Adnewyddu 31 Awst 2012**

Anfonwyd chwe nodyn atogffa at y Gyrrwr ers dyddiad adnewyddu ei drwydded ond ni wnaeth unrhyw ymgais i gysylltu â swyddogion. Ar 6 Mehefin 2012 hysbyswyd y Gyrrwr y byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu i'w ystyried. Ni chafwyd unrhyw ymateb gan yr ymgeisydd ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Ar y pwynt hwn, ymneilltuodd y pwyllgor i ystyried yr achos ac fe –

***BENDERFYNWYD*** *atal trwydded Gyrrwr rhif 040448 nes bydd wedi cwblhau'r prawf gwybodaeth gyrwyr yn llwyddiannus. Byddai methiant gan y Gyrrwr i sefyll y prawf yn llwyddiannus erbyn cyfarfod nesaf y pwyllgor (5 Rhagfyr 2012) yn arwain*

*at ddod â'r mater yn ôl gerbron y pwyllgor i'w benderfynu. Byddai cwblhau'r prawf yn llwyddiannus o fewn y cyfnod atal yn arwain at ddileu'r ataliad.*

Y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu oedd –

Ystyriai'r pwyllgor bod y Gyrrwr wedi cael digon o gyfle i sefyll prawf gwybodaeth gyrwyr a'i fod wedi dangos amarch tuag at y pwyllgor trwy fethu â mynychu'r cyfarfod i gyflwyno ei achos. Felly ystyriodd y pwyllgor ei bod yn briodol atal trwydded y Gyrrwr nes byddai wedi llwyddo yn y prawf gwybodaeth. Byddai methiant ar ran y Gyrrwr i sefyll y prawf yn llwyddiannus yn arwain at ddwyn y mater yn ôl gerbron cyfarfod nesaf y pwyllgor pan roddid ystyriaeth o ddifrif i ddirymu ei drwydded oherwydd nad oedd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

**6 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 043727**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar –

(i) Gais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd rhif 043727 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hur preifat;

(ii) Nad oedd y swyddogion wedi bod mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais oherwydd gwybodaeth a ddatgelwyd gan yr Ymgeisydd ac ar ôl datgeliad manylach gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB);

(iii) Cynodeb o gollfarnau a ddatgelwyd a oedd wedi ei ddarparu a oedd yn cynnwys trais ac anonestrwydd dros gyfnod o 1979 i 1997;

(iv) Bod trwydded wedi ei rhoi i'r Ymgeisydd yn 2009 yn seiliedig ar yr wybodaeth a oedd ar gael ar y pryd, nad oedd wedi cynnwys y gollfarn ddiweddaraf ym 1997;

(v) Polisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd collfarnau, a

(vi) Bod yr ymgeisydd wedi ei wahodd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau arno.

Dywedodd y Swyddog Trwyddedu (JT) bod yr Ymgeisydd wedi cydweithredu'n llawn trwy gydol y broses a'i drafodaethau gyda swyddogion. Yn anffodus nid oedd yr Ymgeisydd wedi medru mynychu'r cyfarfod i gefnogi ei achos oherwydd ymrwymiadau gwaith. Fodd bynnag, roedd wedi cyflwyno llythyr (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) yn ymddiheuro am ei absenoldeb ac yn gofyn i'r aelodau gymryd i ystyriaeth yr wybodaeth ganlynol wrth ystyried ei gais –

- Ei fod wirioneddol yn credu iddo ddatgelu collfarn 1997 adeg ei gais gwreiddiol yn 2009, a oedd wedi ei datgelu wedi hynny fel rhan o'i gais presennol, a

- Iddo hefyd ddatgelu collfarn 1997 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac iddo ddal trwydded gyda'r awdurdod hwnnw am dros ddeng mlynedd.
- 

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu (JT) grynodeb o’r collfarnau a’r amgylchiadau mewn perthynas â chollfarn 1997 fel y cawsant eu cyfleu iddi gan yr Ymgeisydd ynghyd â manylion ei hanes cyflogaeth yn y maes trwyddedu tacsis.

Ar y pwynt hwn, ymneilltuodd y pwyllgor i ystyried y cais ac fe –

***BENDERFYNWYD*** *caniatáu’r cais am drwydded gyrrwr cerbydau hacni a cherbydau hur preifat gan Ymgeisydd rhif 043727.*

Y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu oedd –

Ar ôl ystyried haeddiannau’r achos, nododd yr aelodau bod yr Ymgeisydd wedi gweithio fel gyrrwr tacsis yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am nifer o flynyddoedd heb unrhyw ddigwyddiad. Ystyriodd y pwyllgor bod yr Ymgeisydd wedi newid ei ffyrdd ac wedi bod yn rhydd rhag collfarnau am nifer o flynyddoedd. Nodwyd ymhellach bod yr Ymgeisydd wedi dal trwyddedu yn ardal Cyngor Sir Ddinbych yn y gorffennol, ac nad oedd wedi dod i sylw swyddogion trwyddedu yn ystod y cyfnod hwnnw, ac eithrio mewn perthynas â materion cyffredinol. Roedd y amlwg nad oedd yr Ymgeisydd wedi datgan ei gollfarn 1997 ar ei gais blaenorol i’r Cyngor hwn ond roedd wedi datgelu’r gollfarn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wredam ac wedi gwneud hynny wedyn i Gyngor Sir Ddinbych. Felly nid oedd y pwyllgor yn ystyried bod yr Ymgeisydd wedi ceisio twyllo’n fwriadol.

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau’r uchod, aeth y cyfarfod yn ei flaen mewn sesiwn agored.

**7 ADOLYGU FFIOEDD A THALIADAU TRWYDDEDU**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn diweddaru’r aelodau ar y cynnydd a wnaed ar yr adolygiad ar ffïoedd a thaliadau trwyddedu ar gyfer 2013/14. Roedd manylion yr adolygiad cynhwysfawr wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a hysbyswyd yr aelodau nad oedd swyddogion wedi medru cwblhau’r adolygiad o fewn y cyfnod a bennwyd gan y pwyllgor yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth 2012 oherwydd problemau adnoddau staff. Roedd yr adolygiad ar y gweill ar hyn o bryd gyda’r bwriad o gyflwyno adroddiad llawn i gyfarfod y pwyllgor yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a)* *derbyn a chydnabod adroddiad ar y cynnydd ar adolygiad y ffïoedd a'r taliadau trwyddedu ar gyfer 2013/14, a*

*(b)* *cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad llawn o’r ffïoedd a’r taliadau trwyddedu i gyfarfod y pwyllgor yn y dyfodol i’w hystyried.*

**8 ADOLYGU CASGLIADAU ELUSENNOL**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar -

(i) Y cynnydd a wnaed hyd yma ar adolygiad Casgliadau Elusennol, sef Casgliadau o Ddrws i Ddrws a Chasgliadau Stryd, er mwyn adlewyrchu'n well natur casgliadau elusennol ac i ganiatáu mwy o hyblygrwydd yn y polisïau presennol;

(ii) Manylion y polisïau presennol ar gyfer Casgliadau elusennol, a chynigion i adlewyrchu amcanion y Cyngor yn well er mwyn -

- Gwarchod buddiannau cyfranwyr cyhoeddus a'r sawl a oedd yn elwa
- Hwyluso casgliadau wedi eu trefnu'n dda gan sefydliadau elusennol bona fide a sicrhau cadw safonau da
- Rhwystro casgliadau heb eu trwyddedu rhag digwydd
- Sicrhau bod arian yn cael ei gasglu'n ddiogel a bod yr enillion yn cael eu cyfrif amdanynt yn briodol
- Lleihau niwsans i drigolion ac ymwelwyr
- Cael cydbwysedd teg rhwng achosion lleol a chenedlaethol

(iii) Cam nesaf yr adolygiad oedd ymgynghori â swyddogion cyfreithiol a phartïon eraill â diddordeb, a

(iv) Nes byddai'r adolygiad llawn wedi ei gwblhau, gofyn am gymeradwyaeth i ganiatáu i'r Lleng Brydeinig Frenhinol (apêl y Pabi) ymestyn eu dyraniad presennol ar gyfer Casglu ar y Stryd (dau ddiwrnod) i saith diwrnod i roddi digon o amser a hyblygrwydd iddynt gasglu ledled y sir.

Ymatebodd y Swyddog Trwyddedu i gwestiynau'r Aelodau ar y gwahanol fathau o gasgliadau elusennol a'r amgylchiadau penodol pan roedd angen trywddedau, naill ai'n lleol neu trwy Orchymyn Eithriad y Swyddfa Gartref. Ychwanegodd bod angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ar y mater a'r posibilrwydd o gasgliadau ffug. Cyfeiriwyd hefyd at y polisïau drafft a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori arnynt, a hysbyswyd yr aelodau y byddai rhaglen waith y pwyllgor yn cael ei newid i gynnwys adolygiad o Gasgliadau Elusennol ynghyd ag adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau trwyddedu eraill.

***PENDERFYNWYD –***

*(a) derbyn a chydnabod yr adroddiad ar y cynnydd ar adolygiad o Gasgliadau Elusennol;*

*(b) awdurdodi swyddogion i ymgynghori â swyddogion cyfreithiol a phartïon eraill â diddordeb megis y Comisiwn Elusennau, Elusennau Cenedlaethol ac unrhyw Elusen a oedd wedi cynnal Casgliad Stryd neu Gasgliad o Ddrws i Ddrws yn y sir yn y 12 mis diwethaf ar y polisïau drafft a gynhyrchir yn ystod yr adolygiad, a*

(c) *cymeradwyo'r cais am Gasgliad Stryd gan y Lleng Brydeinig Frenhinol i gasglu ledled y sir am hyd at saith diwrnod ar gyfer Apêl y Pabi.*

**9 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2012/13**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar raglen waith y Pwyllgor Trwyddedu i'r dyfodol. Dywedodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) y byddai rhaglen waith ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor, i gynnwys adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau trwyddedu eraill.

***PENDERFYNWYD** cydnabod rhaglen waith y Pwyllgor Trwyddedu fel y manylwyd yn yr adroddiad.*

**10 CANLYNIADAU PENDERFYNIADAU AR ADDASRWYDD GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn diweddaru'r aelodau ar ganlyniadau penderfyniadau a gymerwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Trwyddedu mewn perthynas â chwe gyrrwr a oedd wedi methu â chydymffurfio â gofyniad y Cyngor i gwblhau prawf gwybodaeth gyrwyr. Roedd y swyddogion yn falch o adrodd, o ganlyniad i'r penderfyniadau a gymerwyd gan yr aelodau, bod y chwe gyrrwr wedi sefyll y prawf yn llwyddiannus, gan gynnwys y ddau yrrwr a oedd wedi cael atal eu trwyddedau, ac roeddynt wedi cael eu trwyddedau yn ôl.

Roedd yr aelodau'n falch o nodi bod y chwe gyrrwr wedi sefyll y prawf gwybodaeth gyrwyr yn llwyddiannus ac fe –

***BENDERFYNWYD** derbyn a chydnabod yr adroddiad diweddaru ar ganlyniadau penderfyniadau a gymerwyd yng Nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Trwyddedu.*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.35 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Y Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 5 Rhagfyr 2012 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Trwyddedu<br>licensing@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706451 |
| **PWNC:** | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Trwyddedu 2013 / 14 |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.2 Hysbysu Aelodau o flaenoriaethau'r Adain Gweinyddu Trwyddedu a chyflwyno rhaglen waith ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn 2013 / 14.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Dau beth, yn bennaf, sy'n llywio blaenoriaethau'r Adain Gweinyddu Trwyddedu, sef dyletswydd yr Awdurdod o ran ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'i swyddogaeth trwyddedu, rheoleiddio, rheoli a gorfodaeth Trwyddedeion yn effeithiol ac ymrwymiad y Cyngor i Waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, sy'n canolbwyntio ar 'gymunedau diogelach'.

2.2 Y blaenoriaethau yw:

1. Adolygu Polisïau Casglu o Dŷ i Dŷ a Chasgliadau Stryd
2. Adolygu Rheoliadau Marchnad y Rhyl
3. Polisi ac amodau Gyrrwr Cerbydau Hacni / Hurio Preifat
4. Polisi ac amodau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat a Gweithredwyr
5. Adolygu Ffioedd a Phrisiau

**3. GWYBODAETH GEFNDIR**

3.1 Bydd yr Aelodau'n cofio fod y Swyddogion, yn y cyfarfod diwethaf fis Medi, wedi son wrthych y byddai rhaglen waith ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Aelodau yn dilyn newidiadau ym mlaenoriaethau'r Adain Gweinyddu Trwyddedu. Mae gan y blaenoriaethau sydd wedi'u nodi amserlen realistig i'r Swyddogion gadw ati.

3.2 **Adolygu Rheoliadau Marchnad y Rhyl**

Cafodd y farchnad Ganiatâd Cynllunio parhaol fis Hydref eleni. Mae

angen diweddaru'r set gyfredol o reoliadau i adlewyrchu'r amodau yn y Caniatâd Cynllunio ac i hyrwyddo partneriaeth waith gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych trwy annog busnesau newydd a mentrau lleol i gymryd stondin am ddim ar y farchnad am gyfnod penodol i'w helpu i sefydlu eu busnes.

3.3 **Adolygu Polisïau Casglu o Dŷ i Dŷ a Chasgliadau Stryd**

Nid yw'r polisïau uchod wedi'u hadolygu ers rhai blynyddoedd. Mae Swyddogion wedi sylwi fod mwy o geisiadau yn disgyn y tu allan i'r polisïau presennol, e.e. cymdeithasau'n dymuno casglu am fwy na'r deuddydd y flwyddyn a ganiateir mewn trefi ar hyn o bryd.

3.4 **Adolygu polisi ac amodau Gyrrwr Cerbydau Hacni / Hurio Preifat**

Cyflwyno adroddiad i Aelodau gyda manylion y meini prawf y mae'n rhaid i ymgeiswyr newydd am drwyddedau gyrru cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat eu bodloni a gofyn i Aelodau ystyried a ddylid eu newid er mwyn gwella safonau gyrwyr trwyddedig, gan ganolbwyntio'n benodol ar sicrhau fod plant ac oedolion bregus yn cael eu gwarchod.

3.5 **Adolygu polisi ac amodau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat a Gweithredwyr**

Cyflwyno adroddiad i Aelodau gyda manylion y meini prawf y mae'n rhaid i ymgeiswyr newydd am drwyddedau gyrru cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat a'r rhai sy'n adnewyddu trwydded eu bodloni a gofyn i Aelodau ystyried a ddylid eu newid er mwyn gwella safonau cerbydau a gweithredwyr, gan ganolbwyntio'n benodol ar sicrhau fod mesurau priodol yn cael eu sefydlu i dalu sylw i ddiogelwch y cyhoedd sy'n teithio.

3.6 **Adolygu Ffioedd a Phrisiau**

Nid yw ffioedd a phrisiau gweinyddu'r gwaith trwyddedu wedi'u hadolygu'n gynhwysfawr ers rhai blynyddoedd. Cyflwynir adroddiad i'r Aelodau gyda manylion costau gwirioneddol gweinyddu'r gwaith o dan gylch gorchwyl y gwasanaeth trwyddedu.

3.7 Bydd y blaenoriaethau uchod yn ffurfio rhaglen waith y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn i ddod.

3.8 Bydd y blaenoriaethau'n arwain at gyfres o gynlluniau gweithredu i gael y canlyniadau a gesir.

3.9 Mae'r flaen raglen waith a awgrymir i'r Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2013 / 14 ynghlwm fel Atodiad 1. Dylai gwaith y Pwyllgor adlewyrchu a rhoi cyfeiriad i amcanion strategol yr Adain Gweinyddu Trwyddedu a gobeithir y bydd y Pwyllgor yn monitro cynnydd yr Adain ac yn cynnig cyngor ac

arweiniad yn ôl y gofyn.

**ARGYMHELLIAD**

4. Argymhellir fod y Pwyllgor Trwyddedu'n ystyried ac yn cymeradwyo'r Flaen Raglen Waith ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu a Blaenoriaethau'r

4.1 Adain Drwyddedu ar gyfer y flwyddyn 2013 / 14.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Atodiad 1**

**ADRODDIAD I:** **PWYLLGOR TRWYDDEDU**

**DYDDIAD:** **5 Rhagfyr 2012**

**ADRODDIAD GAN:** **PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

**PWNC:** **RHAGLEN WAITH DDIWYGIEDIG Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2012 / 14**

| DYDDIAD | ADRODDIAD | SYLWADAU |
|---|---|---|
| 5 Rhagfyr 2012 | Blaen Raglen Waith Ddiwygiedig 2013/14 | Adroddiad i'r Aelodau i gymeradwyo'r Flaen Raglen Waith ddiwygiedig |
| | Yr adroddiad diweddaraf ar adolygu Ffioedd a Phrisiau | Adroddiad i'r Aelodau i'w nodi |
| | Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 – Lefi Hwyr y Nos a Gorchmynion Cyfyngu Cynnar yn y Bore | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried |
| 6 Mawrth 2013 | Adnewyddu Sefydliad Rhyw | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried ynghylch adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw presennol |
| | Adolygu Ffioedd a Phrisiau am 2012 / 14 | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried ac i gymeradwyo set o ffioedd a phrisiau |
| | Adolygu Rheoliadau Marchnadoedd | Adroddiad i'r Aelodau ystyried adolygiad o Reoliadau Marchnadoedd ar gyfer y Rhyl |
| Mehefin 2013 | Gweithdrefnau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat | Adroddiad i'r Aelodau gymeradwyo'r gweithdrefnau diwygiedig |
| | Adolygiad o'r polisi a'r amodau presennol i Yrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat i gynnwys: | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried a'i gymeradwyo i Swyddogion ymgynghori yn ei gylch gyda'r holl |

| | | |
|---|---|---|
| Medi 2013 | Polisi Euogfarn<br>Côd Gwisg Gyrwyr<br>Côd Ymddygiad | bartïon â diddordeb |
| | Adolygu Polisïau Casglu o Dŷ i Dŷ a Chasgliadau Stryd | Adroddiad diweddaru ar ganlyniadau'r ymgynghoriad a wnaed ar y polisïau diwygiedig |
| | Adolygiad o'r polisi a'r amodau presennol i Yrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat a Gweithredwyr | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried a'i gymeradwyo i Swyddogion ymgynghori yn ei gylch gyda'r holl bartïon â diddordeb |
| | Adolygu Ffioedd a Phrisiau Trwyddedu ar gyfer 2014 / 15 | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried a'i gymeradwyo |
| Rhagfyr 2013 | Adolygu'r Polisi Sefydliad Rhyw presennol | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried |
| | Adroddiad ar weithredu System Pwyntiau Cosb i ddeiliaid trwydded Cerbydau Hacni a Hurio Preifat | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried |
| Mawrth 2014 | Blaenoriaethau'r Blaen Raglen Waith a gytunwyd ar gyfer 2014 / 15 | |
| | Adolygiad o'r Polisi Masnachu ar y Stryd presennol | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried a'i gymeradwyo i Swyddogion ymgynghori yn ei gylch gyda'r holl bartion â diddordeb |
| | Adnewyddu Sefydliad Rhyw | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried ynghylch adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw bresennol |

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AR GYFER:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | Rhagfyr 5ed 2012 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Trwyddedu<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706451 |
| **PWNC:** | Diweddariad ar adolygiad o Ffioedd a Thaliadau Trwyddedu |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.2 I ddiweddaru Aelodau ar y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma ar yr adolygiad o ffioedd a thaliadau trwyddedu ar gyfer 2013/14.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Gofynnwyd gan Aelodau am adolygiad o'r ffioedd sy'n daladwy o ran y gwahanol fathau o drwyddedau a weinyddir ac a orfodir gan yr Adran Drwyddedu, yn barod ar gyfer y cyfnod ariannol nesaf.

**3. GWYBODAETH GEFNDIR**

3.1 Bydd Aelodau'n ymwybodol fod Swyddogion yn y Pwyllgor Trwyddedu diwethaf ym mis Medi, wedi hysbysu Aelodau fod adolygiad cynhwysfawr o bob swyddogaeth drwyddedu (oddeutu 20) yn cael eu hystyried yn fanwl i bennu cost wirioneddol gweinyddu pob swyddogaeth ynghyd ag argostau etc.

3.2 Ers cyfarfod olaf y Pwyllgor Trwyddedu mae Swyddogion wedi cwblhau taflen amser ar gyfer pob swyddogaeth drwyddedu sy'n gofyn am ffioedd wedi eu gosod gan y Cyngor, sy'n nodi'r holl dasgau yr ymgymerwyd â nhw i gwblhau'r swyddogaeth honno ynghyd â faint o amser swyddogion a gymerwyd i wneud pob tasg. Mae Swyddogion wedi cael anhawster cyfrifo'r amser gwirioneddol ar gyfer pob tasg, o ystyried na fydd rhai tasgau'n cymryd yr un amser ar gyfer pob cais. Er enghraifft fe allai cais gyrrwr fod yn eithaf syml os yw Gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn glir o unrhyw euogfarn, ond ar y llaw arall, fe allai cais gyrrwr arall fod â Gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol sydd â hanes hir o euogfarnau. Yna byddai'n rhaid i Swyddogion wneud ymholiadau manwl â'r ymgeisydd etc i sefydlu'r rhesymau am bob euogfarn a'u hamgylchiadau a chyfeirio at y pwyllgor i'w pennu.

3.3 Mae sampl o un o'r taflenni amser wedi ei atodi ac mae i'w gael yn Atodiad 1.

3.4 Mae Swyddogion wedi cyfarfod ag Uwch Swyddog Ariannol yr Adran, sy'n cyfrifo'r holl ar-gostau, gwasanaethau cynnal, costau rheolaeth ac unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig ac y gellid eu hadennill.

3.5 Yn ogystal â'r uchod, bydd angen ffactora adenilliad costau'r feddalwedd Trwyddedu i mewn i unrhyw ffioedd a thaliadau. Mae'r Feddalwedd Trwyddedu a ddefnyddir gan yr adran yn cael ei rhannu ar hyn o bryd â Chonwy ac nid yw cynhyrchu ffigurau ar drwyddedau etc dim ond ar gyfer Sir Ddinbych mor syml ag y dylai fod ac felly bydd yn cymryd mwy o amser i Swyddogion adalw data felly. Er mwyn i Aelodau fod yn ymwybodol o gymhlethdod y dasg yma, ac iddyn nhw allu cael costau cywir o faint mae pob trwydded yn ei chostio, bydd yn rhaid i Swyddogion sefydlu faint o drwyddedau rydyn ni wedi eu rhoi am bob swyddogaeth drwyddedu, nid dim ond ar gyfer y swyddogaethau sy'n destun yr adolygiad ffioedd, ond hefyd ar gyfer yr holl swyddogaethau eraill sy'n dod dan gylch gwaith yr Adran Drwyddedu lle gallai eu ffioedd a'u taliadau fod yn cael eu gosod gan statud.

3.6 Mae Swyddogion yn cael cyngor cyfreithiol arbenigol gan James Button & Co i gynghori'r Awdurdod ar ba ffioedd y gellir eu codi am wahanol fathau o drwyddedau a sut i gyfrifo ffioedd trwyddedu i osgoi unrhyw sialensiau cyfreithiol.

3.7 Mae Swyddogion yn gweithio tuag at gyflwyno adolygiad llawn o ffioedd a thaliadau i gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu yn y dyfodol sydd wedi ei gynllunio ar gyfer 2013.

4. **ARGYMHELLIAD**

4.1 Bod Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad gyda'r bwriad o dderbyn yr adolygiad llawn o ffioedd a thaliadau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Atodiad 1**

**Rhoddi Trwydded Cerbyd Hacni / Gyrrwr Hurio Preifat neu Yrrwr Hurio Preifat (yr un broses) £140 I GYNNWYS £48 am Wiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol**

| Gweithgaredd | Proses | Gan Bwy | Amser a Gymerwyd |
|---|---|---|---|
| Printio ffurflenni cais, llyfrau, paratoi ffurflenni'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, ffurflenni'r DVLA, diweddaru ffurflenni. | Llungopïo, diweddaru ar Word /gwefannau, diweddariadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol / DVLA neu ffurflenni | Stephen Tomes / Emma Sinnett / Jo Thomas / Nicky Jones | 10 munud |
| Anfon ffurflenni cais a dogfennau perthnasol allan | Postio eitem, yn cynnwys mewngofnnodi post a ffrancio post neu weld cwsmer wyneb yn wyneb. | Stephen Tomes / Emma Sinnett | 10 munud |
| Cleient yn ffonio am apwyntiad neu'n anfon llythyr yn y post | Trefnu apwyntiad neu gwblhau'r manylion post sy'n angenrheidiol ar daenlen. | Stephen Tomes / Emma Sinnett | 10 munud |
| Cais yn cael ei roi i mewn a'i wirio. | Cais yn cael ei wirio i sicrhau ei fod yn gyflawn ac yn gywir. 3 dogfen adnabod yn cael eu gwirio â manylion ar ffurflen gais a'r ffurflen Swyddfa Cofnodion Troseddol. Caiff y ffurflen SCT ei gwirio o ran ei bod yn gyflawn ac yn gywir. Rhoddir derbynneb a rhoddir dogfennau adnabod yn ôl. Trefnir apwyntiad ar gyfer prawf gwybodaeth. Cais anghyflawn neu ddim digon o ddull adnabod, ffurflen gais i'w hanfon yn ôl. | Stephen Tomes / Emma Sinnett | 1 awr |
| Bancio taliadau | Arian neu siec yn cael eu cofnodi a'u bancio. Neu caiff taliadau cerdyn Visa eu gwirio a'u rhoi ar god. | Stephen Tomes / Emma Sinnett | 10 munud |
| Gwirio, arwyddo ac anfon mandad y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r DVLA at y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r DVLA | Gwirio fod yr holl ddata perthnasol ar y ffurflen yn gywir ac anfon y ffurflen at y Swyddfa Cofnodion Troseddol / DVLA. | Jo Thomas / Nicky Jones | 20 munud |
| Prawf Gwybodaeth | Cynhelir nifer o brofion gwybodaeth angenrheidiol efo'r gyrrwr a hynny wyneb yn wyneb ac mae'n cynnwys eistedd efo'r | Stephen Tomes / Emma Sinnett / Jo Thomas / | 1 awr 20 munud |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyrrwr drwy'r prawf a marcio'r prawf / rhoi gwybod y canlyniad iddyn nhw. | Nicky Jones | |
| Dychwelyd gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol a mandad y DVLA | Gwirio gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn erbyn y cais a chymryd camau angenrheidiol i roi'r drwydded neu gyfeirio at reolwr neu bwyllgor lle bo'r angen. | Jo Thomas / Nicky Jones | Hyd at 2 awr |
| Prosesu Trwydded a'i hanfon neu ei rhoi i'r ymgeisydd | Prosesu cais ar lalpac, mewngofnodi gwiriadau lle bo'r angen | Stephen Tomes / Emma Sinnett | 20 munud |
| Uwch Swyddog Trwyddedu i wirio'r drwydded a'i harwyddo. | | Jo Thomas / Nicky Jones | 10 munud |
| Ffeilio dogfennau | Creu ffeil newydd a'i ffeilio yn y system ffeilio | Stephen Tomes / Emma Sinnett | 10 munud |
| | **Cyfanswm yr amser ar gyfer y broses gyfan** | | **6 awr** |
| **Gweithgaredd Gorfodi** | | | |
| Ymchwiliadau | Cymryd datganiad, cyfweliadau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, clywdeipio cyfweliadau, paratoi ffeiliau erlyn. | Howard Birnie | ? Dyddiau |
| Atal gyrrwr | Llythyr atal | Jo Thomas / Nicky Jones / Howard Birnie | 20 munud |
| Dirymu gyrrwr | Paratoi adroddiadau pwyllgor. | Jo Thomas / Nicky Jones / Howard Birnie | 2 awr |
| **Costau Ychwanegol** | Magicard Printer ar gyfer printio cardiau | Pris dros 5 mlynedd o ddefnydd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | £3,000 / 3000 o gardiau wedi eu printio = £1.00 y cerdyn | |
| | Cardiau a rhubanau, glanhau cardiau, rholwyr | 40c y cerdyn | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Y Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 5 Rhagfyr 2012 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Trwyddedu<br>licensing@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706451 |
| **PWNC:** | Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 – Lefi Hwyr y Nos a Gorchmynion Cyfyngu'n Gynnar yn y Bore |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Amlinellu'r pwerau newydd sydd ar gael i'r Awdurdod Cynllunio o 31 Hydref 2012 o dan newidiadau i Ddeddf Trwyddedu 2003 i wneud Gorchmynion Cyfyngiadau Cynnar yn y Bore a gosod Lefiau Hwyr y Nos.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn cyflwyno newidiadau i Ddeddf Trwyddedu 2003. Er y cafodd y rhan fwyaf o ddigon o'r rhain eu gweithredu ar 26 Ebrill 2012, cafodd newidiadau pellach eu cyflwyno ar 31 Hydref 2012 i gyflwyno Gorchmynion Cyfyngu ar Alcohol yn Gynnar yn y Bore a Lefi Hwyr y Nos, y ddau er mwyn taclo trosedd ac anhrefn yn gysylltiedig ag alcohol ac i helpu i dalu am gostau gwaith gorfodaeth ychwanegol.

**3. YR HAWL I BENDERFYNU**

3.1 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 Rheoliadau (Gorchymyn Cyfyngu ar Alcohol yn Gynnar yn y Bore) 2012 a Rheoliadau Lefi Hwyr y Nos (Gweithredu a Gweinyddu).

**4. GWYBODAETH GEFNDIR**

**4.1 LEFI HWYR Y NOS**

4.2 Pŵer yw'r lefi hwyr y nos sy'n galluogi awdurdodau trwyddedu i godi tâl ar eiddo sydd â hawl i werthu alcohol yn hwyr y nos. Mae'n galluogi awdurdodau trwyddedu i godi tâl ar y busnesau hynny am gostau ychwanegol gorfodaeth y mae'r economi hwyr y nos yn ei achosi i'r heddlu

ac i awdurdodau lleol.

4.3

Os yw'r Awdurdod Trwyddedu'n penderfynu codi'r lefi bydd yn effeithio ar bob eiddo yn y Sir (y fasnach gwerthu diod mewn eiddo ac oddi ar eiddo) sydd â thrwydded i werthu alcohol yn ystod yr oriau y mae'r lefi'n berthnasol. Mater i'r Awdurdod Trwyddedu yw penderfynu ar y cyfnod y bydd y lefi'n berthnasol yn eu hardal, er y bydd yn cael ei gyfyngu i rhwng hanner nos a 6.00am, ac i benderfynu pa eithriadau a gostyngiadau, o restr sydd yn y rheoliadau, y dylid eu defnyddio.

4.4

Bydd gan yr awdurdod trwyddedu ddisgresiwn i gynnig eithriad o'r lefi i'r categorïau canlynol o eiddo a chynlluniau:

i. Eiddo'n cynnig llety dros nos
ii. Theatrau a sinemâu
iii. Neuaddau bingo
iv. Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol
v. Eiddo cymunedol
vi. Tafarnau pentref cymunedol
vii. Ardaloedd Gwella Busnes
viii. Awdurdodiadau nos Galan

4.5

Mater yn gyfan gwbl i ddisgresiwn yr Awdurdod Trwyddedu yw gweithredu'r lefi ai peidio ac mae'n rhaid iddo benderfynu yn seiliedig ar y sefyllfa yn ei ardal.

4.6

Os yw'r Awdurdod Trwyddedu yn dymuno cyflwyno'r lefi yn ei ardal, bydd pob eiddo trwyddedig sydd wedi'i awdurdodi i werthu alcohol yn ystod cyfnod y lefi'n cael ei effeithio. Bydd eiddo nad yw'n dymuno gweithredu yn ystod cyfnod y lefi'n gallu gwneud newidiadau bychan, yn rhad ac am ddim, i'w drwydded cyn y bydd y lefi'n cael ei gyflwyno.

4.7

Os bydd yn cael ei gyflwyno, ac ar ôl casglu'r lefi, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n tynnu costau gweinyddu a chyflwyno'r cynllun. Mae'n rhaid rhoi o leiaf 70% o'r swm net i'r Heddlu, hynny yw, ar ôl tynnu'r costau. Fodd bynnag, un anfantais fawr y lefi yw nad yw'r Heddlu'n gorfod gwario'u canran nhw o'r lefi yn yr ardal ble mae'r lefi'n cael ei chasglu, nac ar blismona sy'n gysylltiedig â throsedd ac anrhefn mewn perthynas ag alcohol.

4.8

Bydd eiddo'n cael eu rhannu'n fandiau yn seiliedig ar eu gwerth trethadwy er mwyn penderfynu faint fydd swm y lefi a godir. Mae'r system yn debyg i'r ffi trwyddedu bresennol, sef y byddai busnesau mwy yn cyfrannu mwy i'r lefi na'r rhai llai.

4.9

Mae'r lefi wedi'i gosod ar lefel genedlaethol a bydd y prisiau canlynol yn

berthnasol petai'r Awdurdod Trwyddedu'n dewis cyflwyno'r pŵer yma:

| Bandiau Gwerth Trethadwy | **A** Dim gwerth trethadwy hyd at £4,300 | **B** £4,301 i £33,000 | **C** £33,001 i £87,000 | **D** £87,001 i £125,000 | **E** £125,001 ac yn uwch | **Dx2** Lluosogydd yn berthnasol i eiddo yng nghategori D sy’n gwerthu alcohol yn bennaf neu’n gyfan gwbl | **Ex3** Lluosoydd yn berthnasol i eiddo yng nghategori E sy’n gwerthu alcohol yn bennaf neu’n gyfan gwbl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tâl Lefi Blynyddol | £299 | £768 | £1,259 | £1,365 | £1,493 | £2,730 | £4,440 |

4.10 **Gorchmynion Cyfyngu’n Gynnar yn y Bore**

4.11 Mae Gorchmynion Cyfyngu’n Gynnar yn y Bore yn cael eu cyflwyno ar y cyd â nifer o fesurau eraill sy’n anelu at ail-gydbwyso Deddf Trwyddedu 2003 o blaid cymunedau lleol ac i gynyddu’r dulliau a’r pwerau sydd ar gael i awdurdodau trwyddedu a’r heddlu i daclo problemau cysylltiedig ag alcohol mewn gwahanol ardaloedd.

4.12 Os yw Awdurdod Trwyddedu’n cyflwyno Gorchymyn Cyfyngu’n Gynnar yn y Bore, bydd yn effeithio ar drwyddedau eiddo, tystysgrifau eiddo clybiau a rhybuddion digwyddiadau dros dro sy'n gweithredu o fewn ardal y Gorchymyn penodol. Bydd gofyn i awdurdodau trwyddedu hysbysebu’r cynnig i wneud y Gorchymyn a dangos fod tystiolaeth i gyfiawnhau gwneud hynny, yn ogystal ag ystyried sylwadau cyn ei gyflwyno.

4.13 Yn wahanol i’r Lefi Hwyr y Nos, does dim darpariaeth ar gael i’r Awdurdod Trwyddedu godi ffi am gyflwyno Gorchymyn, gan nad yw ond teclyn ychwanegol i awdurdodau lleol taclo ardaloedd gyda phroblem cysylltiedig ag alcohol.

4.14 Unwaith eto, yn annhebyg i'r Lefi Hwyr y Nos, does ond ychydig iawn o eithriadau ynghylch Gorchmynion Cyfyngu'n Gynnar yn y Bore . Yr unig ddau eithriad yw:

i. Darparu alcohol i breswylwyr trwy fariau mini a gwasanaeth ystafell mewn eiddo gyda llety dros nos
ii. Ni fyddai Gorchmynion yn berthnasol ar 31 Rhagfyr ar gyfer dathliadau Nos Galan

5. **YMGYNGHORI**

5.1 Mae'r rheoliadau'n datgan, os yw Awdurdod Trwyddedu'n penderfynu codi Lefi neu gyflwyno Gorchymyn bod yn rhaid iddo ymgynghori'n ffurfiol gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau, yr Heddlu, deiliaid trwyddedau ac eraill ynghylch ei benderfyniad.

6. **GOBLYGIADAU ARIANNOL**

6.1 O ddiystyru'r eithriadau a'r gostyngiadau posibl pe codid lefi, nifer yr eiddo a gai eu heffeithio gan y Lefi fyddai tua 175.

6.2 Dylai aelodau gofio y gallai nifer arwyddocaol o eiddo gyda thrwyddedau hwyr benderfynu cwtogi ar eu horiau gwerthu alcohol trwy gyflwyno cais am fân amrywiad i'w trwydded gan y gallai cost y lefi olygu na fyddai'n werth dal i werthu alcohol ar ôl hanner nos. Yn amlwg, byddai hynny'n golygu gostyngiad arwyddocaol yn y swm a gai ei godi trwy lefi (cyn ystyried unrhyw ddidyniad neu eithriad).

6.3 Mae swyddogion yn gwybod y dylen nhw gyflwyno gwybodaeth i Aelodau yn ddiduedd, ond dylid nodi, pe byddai Aelodau'n dewis cyflwyno naill ai Lefi Hwyr y Nos neu Orchymyn Cyfyngu'n Gynnar yn y Bore, y gallai hynny gael effaith arwyddocaol ar economi'r nos, ar fusnesau'n gyffredinol ac y gallai hynny symud problemau i ardaloedd eraill.

7 **ARGYMHELLIAD**

7.1 Fod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad a bod y Swyddogion yn cyflwyno adroddiad manwl pellach i'r Cyngor Sir yn y dyfodol er mwyn i'r Aelodau ystyried a ddylid gweithredu Lefi neu Orchymyn Cyfyngu'n Gynnar yn y Bore, neu'r ddau.

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag